# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Cynllun Tair Blynedd: Crynodeb 2025-28

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

# Cynnwys

Rhagair .......... 2-3
Cyflwyniad .......... 4

Amcanion Strategol
- Datblygu Sefydliad Effeithiol .......... 5-6
- Datblygu Strategaeth a Newid Hirhoedlog .......... 7
- Sicrhau Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tosturiol .......... 8
- Gwella Ansawdd, Canlyniadau a Phrofiadau .......... 9
- Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau .......... 10

Sicrhau bod newid yn digwydd .......... 11
Cymryd Rhan .......... 12

# Rhagair

## Ein cynllun ar gyfer Gogledd Cymru iachach

**Fel Bwrdd Iechyd, rydym wedi ymrwymo i wella iechyd a lles pawb yng Ngogledd Cymru. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn parhau â'n taith tuag at wasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel, effeithiol ac effeithlon, gan gydweithio'n agos â'n cymunedau a'n partneriaid.**

Dyma'r tro cyntaf i'r Bwrdd Iechyd allu cynhyrchu "Cynllun Tymor Canolig Integredig" mantoledig ac mae'n nodi sut y byddwn yn cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ac yn ymateb i'r heriau difrifol a arweiniodd at ein huwchgyfeirio i Fesurau Arbennig yn 2023. Rhaid i ni barhau i wneud cynnydd—a'r cynllun hwn yw ein map ar gyfer gweithredu a gwella.

Er ein bod wedi gwneud newidiadau positif o ran arweinyddiaeth, diwylliant, diogelwch, a'n dulliau rheoli arian, rydym yn gwybod nad ydym wedi cyrraedd y llinell derfyn.

Mae gormod o bobl yn dal i aros yn rhy hir am ofal, a rhaid i ni wneud yn well.

Byddwn yn gwella sut rydym yn cynllunio gwasanaethau a'u darparu. Byddwn yn moderneiddio ein ffordd o weithio, yn dysgu gan eraill, ac yn rhannu'r syniadau gorau ar draws ein timau. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus ac yn cefnogi ein staff i gyflawni newid go iawn.



Cynllun Tair Blynedd: Crynodeb 2025-2028

## I arwain ein gwaith, rydym wedi gosod **pum** amcan clir:



**Datblygu Sefydliad Effeithiol** | **Datblygu Strategaeth a Newid Hirhoedlog** | **Sicrhau Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tosturiol** | **Gwella Ansawdd, Canlyniadau a Phrofiadau** | **Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau**

**Byddwn yn byw yn unol â'n gwerthoedd—Trugaredd, Agored, a Pharch— o ran popeth a wnawn. Cafodd y gwerthoedd hyn eu llunio gan ein staff a'n partneriaid, ac rydym yn falch ohonynt.**



**TRUGAREDD** | **AGORED** | **PARCH**

Gwyddom fod gennym ni fwy i'w wneud, ond rydym yn benderfynol o newid a gyda chefnogaeth barhaus gan ein staff, partneriaid a phobl Gogledd Cymru, gallwn ni fod y bwrdd iechyd rhagorol y mae ein cymunedau'n ei haeddu.



**DYFED EDWARDS**
Cadeirydd, BCUHB



**CAROL SHILLABEER**
Prif Weithredwr, BCUHB

## Y sefydliad iechyd **MWYAF** yng Nghymru

**c.£2.4bn** O gyllid

**c.20,000** Aelod o Staff

**c.700,000** O boblogaeth

**6** Sir

**83** Practis Deintyddol ac Orthodonteg

**3** Phrif Safle Ysbyty

**147** Fferyllfa Gymunedol

**69** Practis Optometreg / Optegydd

**16** Ysbyty Cymunedol

**96** Practis Meddygol (Practis Meddygon Teulu).

# Cyflwyniad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, yn darparu gwasanaethau i dros 700,000 o bobl ar draws y chwe sir yn y rhanbarth.

**Ein diben yw gwella iechyd a lles yr holl bobl hyn a darparu gwasanaethau gofal iechyd rhagorol.**

Fel Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith (Deddf Cyllid y GIG, Cymru, 2014) ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig ("Cynllun Tair Blynedd") sy'n:

- Gwella iechyd y boblogaeth
- Gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd
- Mantoledig dros gyfnod o dair blynedd
- Cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym wedi bod yn gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau gwelliannau hirdymor i wasanaethau gofal iechyd a phrofiad pobl yn y rhanbarth. Gwyddom fod mwy i'w wneud ac mae ein ffocws yn glir gan fod ein cynllun yn nodi ein hymrwymiadau allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf ac mae'r crynodeb hwn yn tynnu sylw at yr hyn y byddwn yn canolbwyntio arno yn 2025-2028.



# Amcanion Strategol

## Drwy **ddatblygu sefydliad effeithiol** byddwn yn:

- Anelu at ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, bob tro, i bawb.
- Sicrhau sylfeini cryfach i ddiogelu ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- Sicrhau bod y systemau cywir ar waith i weithio'n effeithiol 'y tu ôl i'r llenni' fel y gall gwasanaethau rheng flaen ddarparu'r gofal gorau posibl.
- Gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein holl ddyletswyddau cyfreithiol fel sefydliad sy'n gyfrifol am ein cymunedau ac yn atebol iddynt.

## Beth yw System Rheoli Ansawdd?

Mae System Rheoli Ansawdd yn ffordd o weithio a fydd wrth wraidd popeth a wnawn, gan ein cefnogi i gynllunio a darparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i bobl Gogledd Cymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- **Cynlluniau Ansawdd**
  Byddwn yn cynllunio ar gyfer y gwasanaethau sydd eu hangen ar ein poblogaeth – gan ddilyn safonau arfer gorau i ddeall beth sy'n gweithio, beth sydd ddim yn gweithio a chyd-gynhyrchu cynlluniau gyda'n partneriaid.
- **Rheoli Ansawdd**
  Byddwn yn gwybod sut mae gwasanaethau'n gweithio ar y "rheng flaen" gan ysgogi staff i wneud gwelliannau o ddydd i ddydd fel bod gwasanaethau'n cyrraedd safonau ansawdd uchel yn gyson, gan fesur eu hunain yn erbyn y safonau hyn wrth iddynt ddatblygu.
- **Gwella Ansawdd**
  Byddwn yn gwella ein gwasanaethau drwy arloesiadau, yn ogystal â chefnogi gwelliannau hirhoedlog a pharhaus i gyflawni rhagoriaeth a rhagori ar ddisgwyliadau yn gyson.
- **Sicrwydd Ansawdd**
  Byddwn yn hyderus bod gwasanaethau'n cyrraedd y safonau y dylent eu bodloni, gyda chynlluniau, prosesau a strwythurau ar waith i helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.





## Sylfeini'r Dyfodol

**Yn 2022 gwnaed newidiadau i strwythur rhai rhannau o'r sefydliad. Ar y pryd, cyfeiriwyd at hyn fel ein 'Model Gweithredu' newydd.**

Yn dilyn y newidiadau hynny, ac mewn ymateb i adborth am effaith y newidiadau hynny, rydym yn edrych yn fwy manwl ar welliannau y mae angen eu gwneud sy'n mynd y tu hwnt i strwythur y Bwrdd Iechyd a sut rydym yn gweithio yn unig.

Yr uchelgais yw y gall pawb gydweithio i gyflawni ein pwrpas craidd a'n hamcanion strategol gyda'r offer cywir ar waith, wedi'u hategu gan bileri cefnogol gan gynnwys: pobl; diwylliant; strwythurau; prosesau a strategaeth. Gelwir y gwaith yn Sylfeini'r Dyfodol.

Rydym am greu sylfaen gref, gynaliadwy ac effeithiol i ddatblygu arni fel y gallwn ddarparu gofal cleifion da yn gyson ar draws ein holl wasanaethau. Byddwn yn gweithio gyda'n staff dros y flwyddyn nesaf i gyd-gynhyrchu hyn.



Cynllun Tair Blynedd: Crynodeb 2025-2028

## Drwy **ddatblygu strategaeth a newid hirhoedlog** byddwn yn:

- Darparu'r gwasanaethau cywir, yn y lle cywir sy'n hygyrch i bawb gyda Chynllun Gwasanaethau Clinigol cytunedig a strategaeth ddeng mlynedd ddiwygiedig yn eu lle ar gyfer y sefydliad.
- Gwella sut rydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer anghenion pobl.
- Diogelu ein hamgylchedd naturiol a darparu gofal mewn ffordd fwy cynaliadwy.
- Moderneiddio gwasanaethau a buddsoddi mewn trawsnewid digidol.
- Cefnogi ein gweithlu yn well; gan sicrhau ein bod yn cefnogi ein staff i ddysgu a datblygu eu sgiliau yn barhaus.
- Gweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i wneud y peth iawn i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.





Bydd datblygiadau fel yr Hwb Gofal Cynlluniedig newydd yn Llandudno yn trawsnewid gwasanaethau orthopedig dewisol ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, gan fod o fudd i gleifion, staff a chymuned ehangach Gogledd Cymru, drwy gyflawni 1,900 o driniaethau wedi'u cynllunio y flwyddyn.

## Moderneiddio gwasanaethau a buddsoddi mewn trawsnewid digidol.

Bydd datblygu systemau digidol yn chwyldroi sut caiff y broses o weinyddu cleifion a'u cofnodion ei rheoli, gan ei gwneud yn haws i staff clinigol roi gofal parhaus i gleifion. Dylai hefyd gyflymu cyfeiriadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, caniatáu mwy o amser ar gyfer arfer clinigol staff a helpu i waredu gwallau sy'n gallu codi o fewn systemau cofnodi papur. Rydym wedi llwyddo i sicrhau mwy na £12miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r newid hwn ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y lle cyntaf, gyda'r uchelgais o gyflwyno Cofnod Gofal Iechyd Electronig ar draws yr holl wasanaethau ymhen amser.

# Drwy **greu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol** byddwn yn:

- Byddwn yn dangos ein tosturi, ein bod yn agored a'n parch ym mhopeth a wnawn, gan ddwyn ein gilydd i gyfrif fel aelodau staff ar bob lefel.
- Datblygu arweinwyr ar bob lefel, gan gefnogi ein staff i wneud eu gwaith gorau tra'n dysgu'n barhaus, byw yn unol â’r gwerthoedd a chefnogi eraill.
- Gweithio gyda phobl Gogledd Cymru a'n partneriaid; gan roi cyfle i'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau leisio eu barn ar sut mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu cynllunio, eu datblygu a'u gweithredu.
- Hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.




Yn ddiweddar, rydym wedi lansio cyfres newydd o raglenni datblygu arweinyddiaeth, sy'n cefnogi ein staff i fod y gorau y gallant fod a meithrin datblygiad a thwf o'r tu mewn.

Mae Aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cymeradwyo cyfres newydd o werthoedd ac ymddygiadau sefydliadol a gynlluniwyd i ysgogi newid a gwelliannau yn y sefydliad.

Tosturi, Bod yn Agored a Pharch yw'r tair egwyddor arweiniol a gynrychiolir gan staff y GIG a gwasanaethau sy'n gweithio ar draws Gogledd Cymru.

Addawodd uwch arweinwyr i gefnogi’r gwerthoedd, sydd wedi’u llunio ar ôl ymgynghoriad â staff a phartneriaid allanol dros y chwe mis diwethaf.





# Drwy **wella ansawdd, canlyniadau a phrofiadau** byddwn yn:

- Cefnogi pobl yn well i bobl fyw'n dda, gan weithio gyda'n gwasanaethau a'n cymunedau i atal cyflyrau rhag datblygu lle bynnag y bo modd, e.e., Diabetes Math 2, a darparu cefnogaeth a gofal yn gynharach os bydd hynny’n digwydd.
- Cwtogi amseroedd aros ar gyfer adrannau achosion brys, apwyntiadau a thriniaethau wedi'u cynllunio.
- Cwtogi'r amser y mae pobl yn aros am ddiagnosis o ganser, gan sicrhau bod pobl yn derbyn y driniaeth a'r gefnogaeth briodol cyn gynted â phosibl.
- Gwella gwasanaethau gofal cymunedol, gan gynnwys gofal deintyddol a gwasanaethau fferyllfa, fel bod mwy o bobl yn derbyn cymorth yn agosach at adref.
- Gwella gwasanaethau gofal sylfaenol, gan rannu gwaith da a'i efelychu ar draws ardaloedd.
- Darparu gwasanaethau iechyd meddwl gwell i oedolion, plant a phobl ifanc.
- Gwella gwasanaethau ar gyfer iechyd merched, gan sefydlu Hwb Iechyd Menywod.
- Gweithio gyda'n partneriaid i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yng Ngogledd Cymru, gyda chefnogaeth well ar gyfer datblygiad niwrolegol ac anableddau dysgu.
- Sicrhau bod cefnogaeth well ar gael yn ystod pob cam o fywyd, gan gynnwys gwella gwasanaethau lliniarol, diwedd oes a phrofedigaeth.
- Gwella gwasanaethau dementia drwy ymgorffori arferion gorau ar draws y rhanbarth a gweithio'n well fel tîm amlbroffesiynol i gefnogi pobl yn ddi-dor ar draws pob lleoliad gofal.
- Darparu cefnogaeth ychwanegol i wella ein gwasanaethau sy'n wynebu heriau ar hyn o bryd.





Drwy **sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol** byddwn yn:



- Gweithio gyda'n Prifysgol a'n partneriaid addysg i ymgorffori ymchwil ac arloesedd, gan barhau i ddysgu, esblygu a symud gyda'r oes.
- Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata gan ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl, pryd bynnag y mae eu hangen arnynt.
- Ehangu beth rydym yn ei gynnig a'n gallu i gefnogi gyrfaoedd academaidd fel bod ein gweithlu nid yn unig yn cael ei gefnogi i ddysgu'n barhaus ond hefyd i ddod â'r safbwyntiau a'r arferion diweddaraf i'w rolau o fewn y Bwrdd Iechyd.



# Sicrhau bod newid yn digwydd

Rydym yn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i wneud y gwelliannau gwirioneddol a pharhaol yr ydym yn bwriadu eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf.

Rydym wedi rhoi offer a phrosesau newydd ar waith i'n helpu i wella, cynllunio, rheoli a chyflawni newid yn fwy effeithiol ar draws y sefydliad.

Drwy fabwysiadu dull cliriach a mwy cyson o newid, rydym eisoes yn gweld canlyniadau gwell, gyda mwy o'r cynllun 2024/25 yn cael ei gyflawni o fewn amserlen glir. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd hwn, gan sicrhau bod gan staff yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, a defnyddio arfer gorau i arwain gwelliannau. Bydd hyn yn ein helpu i wneud gwelliannau cyflymach a mwy ystyrlon i bobl Gogledd Cymru.

## Perfformiad

Rydym yn gwella sut rydym yn monitro ac yn rheoli perfformiad er mwyn darparu gofal gwell i bobl Gogledd Cymru. Mae'r Fframwaith Perfformiad Integredig newydd yn ein helpu i olrhain cynnydd, nodi problemau'n gynnar, a chymryd camau gweithredu cyflym lle bo angen. Drwy osod nodau clir a defnyddio data dibynadwy, rydym yn meithrin sefydliad mwy atebol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd y dull hwn yn ein helpu i wella profiad a chanlyniadau cleifion gan sicrhau bod pawb yn deall eu rôl wrth gyflawni newid.

## Risgiau

Rydym yn meithrin dull mwy strwythuredig a chydgysylltiedig o reoli risgiau. Bydd ein timau'n monitro cynnydd yn agos yn erbyn ein cynlluniau ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd. Bydd risgiau'n cael eu nodi'n gynnar a gweithredir arnynt yn gyflym i gadw gwasanaethau'n ddiogel ac yn gynaliadwy. Rydym yn cysylltu data perfformiad, canlyniadau a risg fel y gallwn weld yn glir ble mae angen gwelliannau a sicrhau bod cefnogaeth a ffyrdd clir o weithio ar waith ar bob lefel.

## Y Gweithlu

Gyda dros 20,000 o bobl yn gweithio o fewn y Bwrdd Iechyd, rydym yn datblygu gweithlu medrus a hyblyg sy'n barod i ddiwallu anghenion newidiol ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys recriwtio staff sy'n rhannu ein gwerthoedd, cefnogi eu lles, a chreu cyfleoedd clir ar gyfer datblygu gyrfaoedd. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid addysg lleol i agor llwybrau newydd tuag at swyddi gofal iechyd i bobl ar hyd a lled Gogledd Cymru. O wella sgiliau digidol i fynd i'r afael â bylchau recriwtio mewn meysydd allweddol fel Dermatoleg ac Orthodonteg, rydym yn canolbwyntio ar greu gweithlu cryf, cynaliadwy, â chefnogaeth gref ar gyfer y dyfodol.

## Cyllid

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ein hadnoddau ariannol yn gyfrifol i gefnogi gofal iechyd cynaliadwy ac o ansawdd uchel i Ogledd Cymru. Mae ein cynllun ariannol yn cyd-fynd â'r nodau yn ein Cynllun Tair Blynedd ac yn anelu at ein helpu i gyflawni ein dyletswydd gyfreithiol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd. Er gwaethaf yr heriau, rydym yn gweithio i gryfhau ein sefyllfa ariannol drwy flaenoriaethu gwariant, gwella effeithlonrwydd, a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n darparu'r gwerth gorau i gleifion.

Rydym yn cymryd camau i leihau gwastraff, cynyddu effeithlonrwydd, a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio lle byddant yn cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd fel gwerth clinigol, cynllunio'r gweithlu, a chaffael mwy craff trwy ddull cyffredinol o ymdrin â Gwerth a Chynaliadwyedd sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf o fewn ein poblogaeth.



Cynllun Tair Blynedd: Crynodeb 2025-2028

## Cymryd Rhan

Gwyddom fod llawer o heriau o'n blaenau, ond rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd a byddwn ni'n parhau i rannu'r cynnydd hwn gyda chi. Ein nod yw rhoi ein cleifion a'n cymunedau wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym am i bobl weld ein bod ni'n gwrando arnyn nhw, a bod eu barn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wasanaethau iechyd lleol yng Ngogledd Cymru.

Mae yna lawer o ffyrdd y gall pobl gymryd rhan gyda chefnogi ac ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd. Gall hyn fod trwy wirfoddoli, gweithio mewn partneriaeth neu drwy ddysgu am y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gall pobl wneud hyn yn adran Cymryd Rhan gwefan BIPBC.

## Y Newyddion Diweddaraf

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud drwy'r Adran Newyddion ar wefan PBC, neu drwy ddilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:

BetsiCadwaladr/

betsicadwaladr/

BetsiCadwaladr